

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Dyddiad Cyhoeddi: 11 Chwefror 2016



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: GWEITHREDU A GWYBODAETH

CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH

Teitl: Canllawiau ar atal a rheoli heintiau Enterobacteriaceae sy'n cynhyrchu Carbapenemase (CPE) ac organebau ag ymwrthedd i gyffuriau lluosog (MDRO) eraill

Dyddiad dod i ben / Adolygu: 11 Chwefror 2017

I'w weithredu gan y Bwrdd:

Cadeiryddion
Prif Weithredwyr
Ysgrifenyddion Byrddau
Ysgrifennydd i'r Grŵp Ysgrifenyddion Byrddau
Cyfarwyddwyr Nyrsio
Cyfarwyddwyr Meddygol
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd
Meddygon a Nyrsys Rheoli Heintiau
Prif Fferyllwyr Ysbytai
Arweinwyr Rhaglenni Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd ac Ymwrthedd i Gyffuriau ac Ymgynghorwyr Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy Galw Iechyd Cymru
Partneriaethau Cydwasaethau GIG Cymru i'w dosbarthu i bractisau meddygon teulu, fferyllfeydd cymunedol a phractisau deintyddol cyffredinol
Ymddiriedolaeth Ambiwlans

I'w weithredu gan Lywodraeth Cymru (neu er gwybodaeth)

Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru
Arweinwyr Proffesiynol a Pholisi
Tîm Gweithrediadau'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Tîm Cyfathrebu'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Tîm Digidol yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Gweithredu angenrheidiol:

Gweler paragraffau 4 - 7

Anfonydd: Ruth Hussey, Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol a Jean White, y Prif Swyddog Nyrsio

Cyswllt yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru:

Jenny Thorne, Pennaeth Cangen Polisi Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd a Diogelwch Gwaed – jenny.thorne@wales.gsi.gov.uk neu Rhian Pound-McCarthy rhian.pound-mccarthy@wales.gsi.gov.uk Ffôn: 029 2082 6440

Amg: Dim

1. Mae lledaeniad Enterobacteriaceae sy'n cynhyrchu Carbapenemase (CPE) yn rhyngwladol ac o fewn rhanbarthau penodol yn y DU yn destun pryder arbennig i wasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Diben y Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yw tynnu eich sylw at y canllawiau sydd ar gael ac atgyfnerthu'r egwyddorion allweddol wrth frwydro'r bygythiad o CPE:
 - Canfod cynnar (trwy effrogarwch clinigol, ymarfer diagnostig da a gwyliadwriaeth);
 - Ynysu (drwy fesurau rheoli heintiau a sgrinio claf/cyswllt); a
 - Rhagnodi gwrthfotigau yn ddoeth.
2. Mae Carbapenems yn grŵp pwerus o wrthfotigau sbectrwm eang beta-lactam (sy'n perthyn i benisilin). Mewn nifer o achosion, y rhain yw ein hamddiffyniad effeithiol olaf yn erbyn heintiau a achosir gan facteria ag ymwrthedd i gyffuriau lluosog, fel rhai mathau o *Klebsiella pneumoniae* ac *Escherichia coli*.
3. Er mai prin yw'r achosion o CPE a nodwyd yng Nghymru hyd yma, gwelwyd y rhan fwyaf o fathau ohono. Felly mae angen brys i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd fod â strategaethau rheoli allweddol ar waith i nodi ac ymdrin â CPE ac organebau eraill sydd ag ymwrthedd i gyffuriau lluosog (MDRO) i atal eu lledaenu ar draws lleoliadau gofal iechyd.
4. Mae Iechyd Cyhoeddus Lloegr eisoes wedi cynhyrchu canllawiau cynhwysfawr ar reoli CPE mewn lleoliadau gofal sylfaenol ac eilaidd ^{1 2}. Mae angen i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd fabwysiadu, addasu (i fodloni galw lleol) a chynnwys y canllawiau hyn yn rhan o'r polisi MDRO ar gyfer y sefydliad. Hefyd, mae'n rhaid i bob sefydliad fod â chynllun rheoli clir ar gyfer CPE ac MDRO eraill, sy'n cynnwys canllawiau MDR-GNB ac MRSA.^{3 4}
5. Mae'r meysydd allweddol sydd i gael sylw gan y polisi a'r cynlluniau yn cynnwys.
 - polisi sgrinio ar adeg derbyn a fydd yn nodi pa gleifion y mae angen eu sgrinio ar gyfer MRSA, MDRO a CPE gan ddefnyddio'r dull asesu risg clinigol sydd eisoes ar waith ar gyfer MRSA;

¹ [PHE CPE: non-acute and community toolkit \(June 2015\)](#)

² [PHE CPE: early detection, management and control toolkit for acute trusts \(June 2014\)](#)

³ [PHE CPE: non-acute and community toolkit \(2016\)](#)

⁴ [PHE CPE: early detection, management and control toolkit for acute trusts \(2006\)](#)

- nodi'r risg o CPE: yn seiliedig ar ganllawiau Iechyd Cyhoeddus Lloegr, data presennol ar MDRO, y boblogaeth leol, a'r boblogaeth o gleifion sy'n defnyddio gwasanaethau. Bydd angen ystyried trosglwyddo cleifion i mewn o wledydd y tu allan i'r DU neu o sefydliadau gofal iechyd yn y DU y gwyddys bod ganddynt gyfraddau uchel o CPE a/neu MDRO;
 - unedau arbenigol lle y mae grwpiau cleifion a/neu weithdrefnau/triniaethau yr ystyrir eu bod yn peri risg uchel o drosglwyddo a lle y mae'n bosibl y bydd angen mesurau ychwanegol;
 - manyleb glir ar gyfer ynysu a phrofi cleifion yr ystyrir eu bod yn peri risg o CPE. Caiff hyn ei ategu gan restr gyfoes o sefydliadau/rhanbarthau risg sy'n cael ei pharatoi gan Raglen Ymwrthedd i Gyffuriau Gwrthficrobaidd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd y Microbiology Methods Development and Standardisation Group yn cyhoeddi trefniadau gweithredu safonol mewn labordai ar gyfer sgrinio CPE ddiwedd mis Ionawr 2016;
 - cynllun clir ar gyfer cyfathrebu statws organeb ymwrthiannol claf yn effeithiol o fewn y sefydliad a rhwng gwasanaethau gofal iechyd ar adeg trosglwyddo, rhyddhau neu farwolaeth; a
 - sicrhau bod y canllawiau cymunedol wedi'u cynnwys yn y polisi/gweithdrefn MDRO.
6. Bydd angen i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd hyfforddi timau rheng flaen (yn enwedig timau derbyn a staff ambiwlans) i sicrhau bod ganddynt well ymwybyddiaeth o MDRO a CPE a'r camau y mae angen iddynt eu dilyn.
 7. Dylai byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd ddatblygu eu prosesau sgrinio MDRO ar y cyd â Gwasanaethau Microbiolog Iechyd Cyhoeddus Cymru neu â'u gwasanaeth Microbiolog eu hunain.
 8. Gobeithir y bydd rhannu gwybodaeth am gleifion MDRO yn gwella o ganlyniad i gyflwyno'r systemau Atal a Rheoli Heintiau electronig i dimau yng Nghymru yn ystod y flwyddyn nesaf.
 9. Bydd trefniadau adrodd a phroffion cadarnhau yng Nghymru drwy'r [Uned Cemotherapi Gwrthficrobaidd Arbenigol Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) a Rhaglen Ymwrthedd i Gyffuriau Gwrthficrobaidd Cymru. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gydag [uned gyfeirio ymwrthedd i gyffuriau a heintiau sy'n ymwneud â gofal iechyd](#) Iechyd Cyhoeddus Lloegr ar gyfer monitro a gwyliadwriaeth ymwrthedd i gyffuriau, gan gynnwys bacteria sydd ag ymwrthedd i garbapenem.

10. Bydd polisiau rhagnodi gwrthficrobaidd doeth a gweithredu'r *Cynllun Cyflenwi Ymwrthedd Gwrthficrobaidd*⁵ hefyd yn tanategu'r broses o atal MDRO a CPE yn y dyfodol.
11. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnig cefnogaeth i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd i ddatblygu cynlluniau rheoli a pholisiau MDRO lleol os bydd angen. Gellir ceisio cyngor arbenigol drwy gysylltu â'r Rhaglen Ymwrthedd i Gyffuriau Gwrthficrobaidd:

Dr Robin Howe	029 2074 5422	robin.howe@wales.nhs.uk
Dr Maggie Heginbothom	029 2040 2532 est 5724	Margaret.heginbothom@wales.nhs.uk
Dr Mandy Wootton (Uned Cemothherapi Gwrthficrobaidd Arbenigol)	029 2074 6581	Mandy.wootton@wales.nhs.uk

a/neu Gail Lusardi, Nyrs Ymgynghorol y rhaglen Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd (029 2040 2473 est 5608, Gail.Lusardi@wales.nhs.uk).

⁵ [Cynllun cyflenwi ymwrthedd gwrthficrobaidd drafft](#)